



## Deddf yr Amgylchedd 1995 Rhan IV Adran 83 (1)

### Cyngor Sir Caerfyrddin Gorchymyn Ardal Rheoli Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan arfer ei bwerau o dan Adran 83(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Gellir dyfynnu/cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin [Caerfyrddin 2016] a ddaw i rym ar 2 Awst 2016

Bydd yr ardal a ddynodir ar y map atodedig o fewn y ffin las yn cael ei dynodi'n ardal rheoli ansawdd aer (yr ardal ddynodedig). Mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys cyffordd Heol Ffynnon Job ar y 84312 yn Nhre Ioan ac yn mynd i'r cyfeiriad dwyreiniol i fyny Rhiw'r Gofeb ac i lawr Heol Picton hyd at gylchfan Heal y Gwyddau. Mae'n parhau ar hyd Heol y Gwyddau, gan deithio i'r gogledd i fyny Stryd y Dwr i'r gyffordd a Ffordd Glannant a Stryd Pentrefelin, ymlaen i Heol y Sgubor a Theras Francis hyd at Waun Dew cyn troi i'r chwith ar hyd Lon yr Hen Dderwen a chyrraedd cylchfan yr Hen Dderwen. Mae'r ffin yn mynd i gyfeiriad y dwyrain ar hyd Stryd y Prior, drwy Abaty'r Ddol hyd at gylchfan y Tanerdy ar yr A484, sef man mwyaf dwyreiniol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Wrth gylchfan yr Hen Dderwen, mae'r ffin hefyd yn mynd tua'r de ar hyd Stryd y Prior a Stryd yr Eglwys, Stryd Spilman ac ymlaen i'r gyffordd ar yr A484 islaw Neuadd y Sir. Mae'r ffin yn mynd i gyfeiriad y de dros Bont Tywi hyd at gylchfan Pont Tywi, sef man mwyaf deheuol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. O'r gyffordd islaw Neuadd y Sir, mae'r ffin yn mynd tua'r gorllewin ar hyd Ffordd y Cwrwg ac ymlaen i gylchfan y Morfa cyn teithio tua'r gogledd i fyny Lon Morfa hyd at gylchfan Heal y Gwyddau, cyn troi i'r gorllewin yn ôl i gyffordd Ffordd Ffynnon Job gan gwblhau ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer.


Mae'r Ardal hon wedi'i dynodi mewn perthynas â thori amcan nitrogen deuocsid (cymedrig blynyddol) fel y nodwyd yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000.

Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym hyd nes y mae'n cael ei amrywio neu'i ddirymu gan orchymyn dilynol.

Gosodwyd Sel Gyffredin Cyngor\_Sir Caerfyrddin ar 2 Awst 2016 a'i llofnodi ym mhresenoldeb /ar ran y Cyngor dan sylw

*Linda Rees-Jones*

 **Carmarthenshire**  
**Carmarthen ACIMA Boundary Map**



LR-J

0 100 200 300m

Graddfa  
Scale 1:10000

Canol y Map  
Map Centre [241252.7, 220370.9]

Dyddiad  
Date 22/02/2016

© Hawmairt y Gornn a hysbaidau corffia o 2016. Arwydd Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2016. Ordnance Survey 100023377